CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

POLISI COSBAU TWYLL BUDD-DALIADAU

1. PWRPAS A NODAU

1.1. Mae'r ddogfen hon yn gosod allan polisi'r Cyngor am orfodi cosbau ar unigolion a mudiadau tu allan i'r Cyngor sy'n cyflawni twyll budd-dal yn ei erbyn.

1.2. Mae'r polisi'n unol â *Strategaeth Gwrthdwyll a Llwgrwobryo* y Cyngor sy'n datgan "**Bydd y Cyngor yn ceisio erlyn neu gosbi tramgwyddwyr twyll a llwgrwobrwyo sy'n ymwneud â budd-daliadau**" (gweler Atodiad A).

1.3. **Dylid deall bod y Cyngor (holl aelodau etholedig ac unrhyw weithwyr neu asiantau sy'n gweithio ar ei ran) yn cefnogi'r polisi hwn yn llawn a bydd yn ei weithredu. Gall unrhyw unigolion neu fudiadau sy'n cyflawni twyll budd-dal** yn erbyn y Cyngor ddisgwyl cael eu cosbi'n briodol.

1.4. I gydnabod amcanion strategol y Cyngor a'i statws fel stiward cyfrifol o arian cyhoeddus ac, o ystyried pryderon y cyhoedd am dwyll, yn enwedig y broblem genedlaethol o dwyll budd-dal, anela'r polisi hwn at ddod o hyd i dwyll yn effeithiol a'i atal. Mae ei nodau penodol fel a ganlyn:

- sicrhau y cosbir twyll trwy gosbau effeithiol
- helpu i ddewis y cosbau mwyaf priodol
- sicrhau y gweithredir y cosbau'n llwyddiannus
- mwyhau effaith ataliol cosbau llwyddiannus
- helpu i gael iawndal digonol lle mae gofyn
- cynnal a magu hyder a pharch y cyhoedd yn y Cyngor trwy helpu i sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei wneud

2. CWMPAS A DIFFINIADAU

2.1. **At ddibenion y polisi hwn, golyga twyll "unrhyw un sy'n newid cyfriflenni neu gofnodion ariannol yn fwriadol gyda'r bwriad o guddio asedau neu wneud elw".**

2.2. Mae'r ystyr hwn yn cynnwys **gwneud elw ariannol neu geisio gwneud elw ariannol trwy fethu â chynghori am newidiadau i wybodaeth yn fwriadol.**

2.3. Mae'r polisi hwn yn cynnwys twyll budd-daliadau tai a threth y cyngor yn unig gan unigolion neu fudiadau allanol. Gallai'r rhain gynnwys – ymysg eraill:

- Pobl sy'n hawlio budd-daliadau
- Landlordiaid
- Asiantau

2.4. Mae'r polisi hwn yn gosod allan:

- y cosbau sydd ar gael
- y meini prawf ar gyfer penderfynu pa gosb sy'n berthnasol

- y cyfrifoldebau ar gyfer penderfynu pa gosb sy'n berthnasol
- y cyfrifoldebau mewn perthynas â phob cosb
- ymchwilio i achosion mewn perthynas â'r polisi hwn
- cyhoeddusrwydd ac adrodd
- cadw'r polisi'n amserol a pherthnasol

3. Y COSBAU SYDD AR GAEL

Mae pedair cosb ar gael:

3.1. **Erlyn**:- gellir cychwyn achos cyfreithiol yn erbyn tramgwyddwyr honedig a bydd yr achos yn cael ei glywed yn y llys gyda'r bwriad o gael euogfarn droseddol a dedfryd briodol.

3.2. **Rhybudd ffurfiol**:- Gellir rhoi rhybudd ar lafar mewn rhai amgylchiadau i unigolyn sydd wedi troseddu.

3.3. **Cosbau gweinyddol:-** Yn unol â deddfwriaeth nawdd cymdeithasol[1], ystyrir cosbau gweinyddol yn lle erlyn mewn achosion o dwyll budd-daliadau tai a threth y cyngor. Gellir cynnig cosb ariannol sy'n gyfystyr â chanran y penderfynwyd arni'n statudol o'r gor-daliad crynswyth i unigolyn lle mae digon o dystiolaeth i'w herlyn.

3.4. **Adfer y gordaliad ac achos llys sifil**:- Mae gofyn llym i ad-dalu unrhyw arian a gafwyd mewn ffordd dwyllodrus yn helpu i atal twyll a gall fod yn ychwanegol i unrhyw gosbau eraill a weithredir. Gall adfer gynnwys achos mewn llys sifil hefyd.

4. MEINI PRAWF AR GYFER PENDERFYNU AR GOSBAU PRIODOL:

4.1. CYFFREDINOL

4.1.1. Bydd y gosb a ddewisir yn ystyried:

- swm y twyll
- ei hyd
- a oes gan y tramgwyddwr hanes o dwyllo
- amgylchiadau personol a chymdeithasol y tramgwyddwr
- pa mor fwriadol oedd y twyll
- buddiant cyhoeddus
- ansawdd ac addasrwydd y dystiolaeth

4.1.2. Mae'n bwysig deall **yr ymdrinnir ag unrhyw dwyll mewn ffordd drylwyr** a byddwn yn **ystyried erlyn fel y prif gosb.** Ceidw'r Cyngor yr hawl i erlyn ym mhob achos o dwyll.

[1] Adran 115A o Ddeddf Gweinyddiaeth Nawdd Cymdeithasol 1992 fel y cynhwyswyd gan Adran 15 o Ddeddf Gweinyddiaeth Nawdd Cymdeithasol (Twyll) 1997 a Rheoliadau Nawdd Cymdeithasol (Rhybudd o Gosbau) 1997

4.1.3. Lle mae asiantaeth arall ynghlwm, megis yr Adran Gwaith a Phensiynau, gallai hyn ddylanwadu ar ba gosb a ddefnyddir (er enghraifft, lle mae *cyfanswm* gwerth y twyll yn sylweddol uwch nag elfen y Cyngor). Mae gan y Cyngor gytundeb i gyd-ymchwilio gyda'r Asiantaeth Fudd-daliadau mewn achosion lle mae hawlwyr yn hawlio budd-dal a a threth y cyngor gan y Cyngor.

4.1.4. Mewn achosion o dwyll budd-dal, rhoddir ystyriaeth i gyfarwyddyd yr Adran Gwaith a Phensiynau (Atodiad B) wrth benderfynu ar gosbau priodol.

4.1.5. Mae euogfarn flaenorol am dwyll yn ffactor pwysig ac, os yw'n gyfreithiol bosibl, byddwn yn gwirio gyda'r asiantaethau swyddogol perthnasol. Mewn cyd-ymchwiliadau, megis y rhai gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, gallai'r asiantaeth bartner fod mewn gwell sefyllfa i wneud y gwiriad hwn. Bydd y Cyngor yn gwirio ei gofnodion mewnol ei hun, lle'n bosibl.

4.2. MEINI PRAWF AR GYFER PENDERFYNU AR GOSB: ERLYN

4.2.1. Mae erlyn yn fesur difrifol a all gael oblygiadau sylweddol ar y rhai dan sylw. Rhaid ei wneud mewn ffordd deg ac effeithiol sy'n golygu bod cyfraith a threfn yn cael eu cynnal. Rhaid i benderfyniadau i erlyn fod yn deg a chyson felly.

4.2.2. Rhaid ystyried yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer erlyn hefyd a allai fod yn sylweddol.

4.2.3. Ni fydd achosion drwgdybiedig o dwyll a llwgrwobrwyo'n destun erlyn fel mater o drefn ond bydd penderfyniadau'n ystyried **buddiant cyhoeddus** ac a oes **digon o dystiolaeth.** Bydd cyfarwyddyd y Twrnai Cyffredinol, y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron, ac unrhyw gyfarwyddyd swyddogol arall, yn dylanwadu'r meini prawf.

Y Prawf Buddiant Cyhoeddus

4.2.4. Bydd y penderfyniad i erlyn yn **fwy** tebygol os yw o leiaf un o'r canlynol yn berthnasol:

- mae dedfryd sylweddol yn debygol o ganlyniad i euogfarn
- roedd y drosedd yn fwriadol
- roedd y diffynnydd yn drefnwr y drosedd
- mae gan y tramgwyddwr euogfarnau perthnasol blaenorol
- gwnaed y drosedd honedig gan grŵp

4.2.5. Bydd erlyn yn **llai** tebygol os:

- mai cosb fach yn unig sy'n debygol
- roedd y drosedd o ganlyniad i gamgymeriad go iawn
- nid oedd y colled cychwynnol i'r Cyngor yn fawr iawn
- cafwyd oedi hir rhwng y drosedd a'r achos llys (oni bai bod y drosedd yn ddifrifol, y datgelwyd hi'n ddiweddar yn unig, mae ei chymhlethdod wedi arwain at ymchwiliad hir neu achoswyd yr oedi gan y diffynnydd)

- mae'r diffynnydd yn hen a/neu'n dioddef o salwch corfforol neu iechyd meddwl difrifol neu roedd mewn sefyllfa anodd ar adeg y drosedd
- mae manylion yn bodoli a allai niweidio unigolyn arall

4.2.6. Nid yw'r rhestrau uchod yn derfynol a gallai fod yna ffactorau eraill i'w hystyried.

4.2.7. Dim ond pan fydd ffactorau anffafriol yn gwrthbwyso'r buddion y ceir penderfyniad i beidio ag erlyn yn amodol ar y **prawf tystiolaeth** (isod).

Y Prawf Tystiolaeth

4.2.8. Rhaid i ni fod yn fodlon bod yna ddigon o dystiolaeth i gael euogfarn lwyddiannus. Dylai'r achos amddiffyn gael ei ystyried a sut bydd hwnnw'n effeithio ar yr achos erlyn.

4.2.9. Mae gobaith realistig o euogfarn yn brawf gwrthrychol a golyga fod ynadon neu reithgor yn fwy tebygol na pheidio i ddedfrydu'r diffynnydd.

4.2.10. Wrth benderfynu a oes digon o dystiolath i erlyn, rhaid ystyried a yw'r dystiolaeth yn dderbyniol ac yn ddibynadwy. Mewn sawl achos, ni fydd y dystiolaeth yn peri pryder ond bydd rhai achosion na fydd y dystiolaeth mor gryf ag y mae'n ymddangos ar y cychwyn. Rhaid ystyried y canlynol felly:

- *a ellir defnyddio'r dystiolaeth mewn llys* - mae rheolau cyfreithiol penodol sy'n gallu golygu na ellir rhoi tystiolaeth sydd i weld yn berthnasol e.e. eithrio tystiolaeth oherwydd y ffordd y cafwyd hi neu ddefnyddio tystiolaeth achlust.

- *bod y dystiolaeth yn ddigonol* - os eithrir peth tystiolaeth, rhaid bod yna ddigon o dystiolaeth arall i gael gobaith realistig o euogfarn.

- *bod y dystiolaeth yn ddibynadwy* - gallai dibynadwyedd gwybodaeth ddibynnu ar oed, deallusrwydd neu ddiffyg dealltwriaeth **diffynnydd**; gallai dibynadwyedd tystiolaeth **tyst** ddibynnu ar ffactorau ynghylch eu cefndir, megis rhesymau amheus a allai effeithio ar eu hagwedd at yr achos; ac os oes cwestiwn ynghylch pwy yw'r diffynnydd, rhaid ystyried cryfder y dystiolaeth.

4.2.11. Bydd pob eitem o dystiolaeth yn mynnu prawf i weld a ydynt yn dderbyniol ac yn ddibynadwy.

4.3. MEINI PRAWF AR GYFER PENDERFYNU AR GOSBAU: RHYBUDD FFURFIOL

4.3.1. Mae rhybudd ffurfiol yn fesur difrifol a rhaid ei drin mor ffurfiol ag unrhyw gosb arall. Rhaid i ansawdd y dystiolaeth sydd ei hangen fod o'r un safon ag sy'n ofynnol ar gyfer erlyniadau.

4.3.2. Rhaid cael sail i achos troseddol ond mae'n bosibl nad erlyn yw'r cam mwyaf manteisiol. **Fodd bynnag, ni ellir cynnig y rhybudd os ystyrir na fyddai erlyniad yn debygol o lwyddo;** dylai fod digon o dystiolaeth i gyfiawnhau achos llys.

4.3.3. Prif werth rhybudd yw fel rhywbeth ataliol. Os yw'r unigolyn sy'n cael y rhybudd yn cael ei erlyn am drosedd arall yn hwyrach, sonnir am y rhybudd yn y llys.

4.3.4. Gellir ystyried y gosb hon dim ond lle:

- mae digon o dystiolaeth i gyfiawnhau achos troseddol
- mae'r unigolyn wedi cyfaddef y drosedd yn ystod cyfweliad dan rybudd a gynhelir yn unol â gofynion Deddf Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984
- ystyriwyd hanes yr unigolyn o euogfarnau blaenorol, a gafwyd gan yr asiantaethau priodol
- mae disgwyl rhesymol y bydd hyn yn lleddfu ei th/droseddu
- mae'r tramgwyddwr dros 18 oed

4.3.5. Os yw'r unigolyn yn gwrthod derbyn rhybudd, bydd gofyn ystyried achos llys.

4.3.6. Dim ond dan amgylchiadau eithriadol y dylid ystyried rhybuddion dilynol.

4.3.7. Ar ôl gwrthod derbyn rhybudd, os yw'r unigolyn yn newid ei feddwl, gall y Rheolwr Refeniw gytuno i gynnig newydd yn amodol ar gynnydd unrhyw erlyniad.

4.4. MEINI PRAWF AR GYFER PENDERFYNU AR GOSBAU: COSBAU GWEINYDDOL

4.4.1. Gellir defnyddio'r gosb hon dim ond lle mae modd adfer y budd-dal tai/treth y cyngor, lle roedd o ganlyniad i weithred neu hepgoriad ar ran yr unigolyn dan sylw.

4.4.2. Rhaid bod sail i achos troseddol ond mae'n bosibl nad erlyn yw'r cam mwyaf manteisiol. **Fodd bynnag, ni ellir cynnig y gosb os ystyrir na fyddai erlyniad yn debygol o lwyddo;** dylai fod digon o dystiolaeth i gyfiawnhau achos llys.

4.4.3. Nid oes gan gosbau gweinyddol unrhyw statws yn y llys ac ni fydd sôn amdanynt mewn unrhyw achos llys, oni bai bod tramgwyddwr wedi eu gwrthod yn flaenorol.

4.4.4. Gall y gosb fod ar gyfradd a bennir gan ddeddfwriaeth yn unig. Ni ellir gorfodi cosb ac nid oes raid i'r tramgwyddwr dderbyn y gosb. Ar ôl derbyn y cynnig, rhoddir 28 diwrnod i'r hawlydd newid ei feddwl.

4.4.5. Os yw tramgwyddwyr yn cytuno i dalu'r gosb weinyddol, ni ellir cychwyn achos yn eu herbyn mewn perthynas â'r drosedd a arweiniodd at y gor-daliad oni bai y tynnir y cytundeb yn ei ôl yn ystod y 28 diwrnod a ganiateir at y pwrpas hwn.

4.4.6. Nid oes gan dramgwyddwyr hawl i arolygu penderfyniad y Cyngor i gynnig neu beidio â chynnig cosb.

4.4.7. Mae'n bosibl mai dyma'r dewis gosb:

- am y tro cyntaf neu ar gyfer mân-dwyll o ran symiau a hyd
- lle mae siawns dda o adfer y gordaliad twyllodrus
- lle nad yw'r drosedd yn cael ei chyfaddef yn ystod y cyfweliad

4.5. MEINI PRAWF AR GYFER PENDERFYNU AR GOSBAU: ADFER GOR-DALIADAU AC ACHOS LLYS SIFIL

4.5.1. Os ystyrir nad yw achos troseddol na chosbau eraill yn briodol yn unol â'r polisi hwn, bydd y gordaliadau'n cael eu hadfer trwy system dyledwyr y Cyngor neu o unrhyw arian sy'n parhau i gael ei dalu.

4.5.2. Gellir ystyried achos mewn llys sifil fel ffordd o adfer unrhyw symiau yr ystyrir y collwyd nhw oherwydd twyll neu lwgrwobrwyo. Ymgymerir ag achos dan drefniadau a gymeradwyir gan y Prif Swyddog Cyfraith a Gweinyddiaeth.

5. CYFRIFOLDEB AM BENDERFYNU PA GOSBAU SY'N BERTHNASOL

5.1. Bydd y swyddogion sy'n gyfrifol am argymell cosb benodol *ar ôl cwblhau ymchwiliad* yn fodlon y diwallwyd y meini prawf priodol a byddant yn cofnodi eu penderfyniad yn unol â hyn.

5.2. Mae'r Prif Swyddog Cyfraith a Gweinyddiaeth yn gyfrifol[2] am gychwyn a chynnal achosion sifil, troseddol a gweinyddol, ac eithrio achosion budd-daliadau treth y cyngor/tai, a bydd unrhyw benderfyniad i erlyn, rhoi rhybudd ffurfiol neu gynnig cosb weinyddol yn gyfrifoldeb y Rheolwr Refeniw.

5.3. Oherwydd amlder y twyll a'r adnoddau sydd gan y Cyngor ar gyfer ymchwiliadau, bydd y penderfyniad ar ba gosb sy'n berthnasol yn gyfrifoldeb y Rheolwr Refeniw neu, yn ei absenoldeb ef, y Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad.

5.4. Lle ymchwilir i achosion ar y cyd ag asiantaeth arall, mae'r penderfyniad i ddewis cosb yn gyfrifoldeb y Rheolwr Refeniw ar gyfer achosion budd-daliadau tai/treth y cyngor a bydd yn dibynnu ar bolisïau a phenderfyniad yr asiantaeth bartner.

[2] Dan swyddogaethau'r Cyngor a ddirprwyir i swyddogion (heblaw am faterion a ddirprwyir yn benodol i swyddog arall)

5.5. Os penderfynir i beidio â chael achos troseddol, bydd prif swyddog y gwasanaeth dan sylw'n gwneud trefniadau i adfer yr arian naill ai o arian sy'n parhau i gael ei dalu neu drwy agor cyfrif dyledion swyddogol.

6. CYFRIFOLDEBAU MEWN PERTHYNAS Â PHOB COSB:

6.1. CYFRIFOLDEBAU MEWN PERTHYNAS Â PHOB COSB: ERLYN

Rhesymau dros benderfynu i erlyn

6.1.1. Seilir penderfyniad y Rheolwr Refeniw i erlyn mewn achosion budd-daliadau tai/treth y cyngor ar gyfrif ysgrifenedig o'r dystiolaeth. Cofnodir rhesymau'r penderfyniad.

Terfynau amser

6.1.2. Bydd yr holl staff sy'n rhan o brosesu achosion erlyn yn ystyried gofynion amser achosion (a bennir gan y math o drosedd fel arfer).

Datgelu gwybodaeth

6.1.3. Bydd y gweithdrefnau hyn yn ystyried gofynion Deddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 o ran datgelu gwybodaeth sy'n bwysig i gyfreithwyr. Dylid ystyried Deddf Gwarchod Data 1998 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 hefyd.

Cyfrifoldeb am gynnal erlyniad

6.1.4. Ar gyfer achosion o dwyll budd-dal, bydd y Rheolwr Refeniw yn gyfrifol am benderfynu *pwy* ddylai gynnal erlyniad.

6.1.5. Ceisia'r Cyngor annog ymagwedd gymysg at bwy sy'n cynnal erlyniadau. Gall staff cyfreithiol mewnol y Cyngor, cyfreithwyr allanol neu asiantaethau erlyn yn y sector cyhoeddus eu cynnal. Bydd erlyniad gan staff eraill y Cyngor yn mynnu awdurdod y Prif Swyddog Cyfraith a Gweinyddiaeth.

6.1.6. Gallai amgylchiadau godi lle byddai ymchwiliad gan yr heddlu neu asiantaeth allanol fod yn fwy priodol. Yn yr achosion hyn, cynhelir yr erlyniad gan bwy bynnag y mae'r heddlu neu'r asiantaeth yn penderfynu arnynt, e.e. Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Erlyniadau gan staff mewnol neu gyfreithwyr

6.1.7. Pan gynhelir erlyniadau gan staff mewnol neu gyfreithwyr allanol, bydd y rhain mewn cytundeb â'r Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad a/neu'r Rheolwr Refeniw.

Erlyniadau gan yr heddlu neu asiantaethau allanol eraill

6.1.8. Bydd y Rheolwr Refeniw'n penodi swyddog a fydd yn arwain cyswllt gyda'r heddlu neu asiantaeth allanol.

6.1.9. Cyn unrhyw achos llys, naill ai trwy erlyniad neu lys sifil, cytunir ar swm yr iawndal ac/neu ad-daliad ymlaen llaw.

6.2. CYFRIFOLDEBAU MEWN PERTHYNAS Â PHOB COSB: RHYBUDDION FFURFIOL

6.2.1. Seilir penderfyniad y Rheolwr Refeniw i roi rhybudd ar gyfrif ysgrifenedig o'r dystiolaeth sydd ar gael, a gwybodaeth o unrhyw euogfarnau blaenorol. Cofnodir rhesymau'r penderfyniad.

6.2.2. Cyfrifoldeb y Rheolwr Refeniw yw penderfynu *pwy* ddylai weinyddu'r gosb.

6.2.3. Os mai'r heddlu neu asiantaeth allanol sy'n cynnal yr ymchwiliad, gweinyddir y gosb gan bwy bynnag y mae'r heddlu neu'r asiantaeth yn penderfynu arnynt.

6.2.4. Bydd y swyddogion y caniateir iddynt weinyddu cosb yn brofiadol er mwyn peidio â dibrisio rhybuddion ym marn y cyhoedd. Rhestrir y swyddogion hyn yn Atodiad C.

6.2.5. Lle'n bosibl, ni ddylai'r swyddog sy'n gweinyddu'r gosb fod yn rhan o'r cyfweliad dan rybudd.

6.2.6. Trefnir apwyntiad yn swyddfeydd y Cyngor, heblaw am dan amgylchiadau eithriadol, gyda'r unigolyn sy'n destun y rhybudd. Os yw'r unigolyn yn methu â chadw'r apwyntiad ac nad yw'n cysylltu â'r Cyngor o fewn y cyfnod amser a awgrymir yn y cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, bydd achos troseddol yn cael ei baratoi.

6.2.7. Os yw'r unigolyn yn symud i ardal awdurdod lleol arall cyn y gellir trefnu cyfweliad, gellir gofyn i'r awdurdod dan sylw gyhoeddi'r rhybudd.

6.2.8. Bydd gweinyddu, paratoi a chynnal y cyfweliad dan rybudd, a fformat, cynnwys a geirfa'r rhybudd yn unol â chyfarwyddyd yr Adran Gwaith a Phensiynau a/neu'r Prif Swyddog Cyfraith a Gweinyddiaeth.

6.2.9. Bydd y swyddog sy'n gweinyddu'r rhybudd yn sicrhau bod:

- yr unigolyn wedi llofnodi dogfen i ddangos eu bod yn cyfaddef y drosedd
- yr unigolyn wedi cytuno i'r rhybudd yn ysgrifenedig ac wedi cydnabod yn ysgrifenedig eu bod wedi cael y rhybudd a'u bod yn ei dderbyn
- manylion yn cael eu rhoi ar gofnodion yr AGP
- unrhyw wrthodiad gan y tramgwyddwr yn cael ei gofnodi er mwyn adrodd am hyn yn y llys

- cyfieithydd ar gael os bydd agen a bod gwybodaeth ar gael mewn sawl fformat ac iaith heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg os bydd angen

6.2.10. Mewn achosion o dwyll budd-dal, lle mae budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau ynghlwm hefyd, bydd swyddog a benodir gan Reolwr Refeniw'r Cyngor yn gweinyddu'r rhybudd ar y cyd â staff yr AGP. Gall staff yr AGP ond rhoi rhybuddion mewn perthynas â budd-daliadau a dalwyd gan yr AGP.

6.2.11. Os yw tramgwyddwyr yn derbyn rhybudd, ni fydd hyn yn atal y Cyngor rhag ceisio adfer unrhyw symiau a ordalwyd o ganlyniad i'r twyll.

6.3. CYFRIFOLDEBAU MEWN PERTHYNAS Â PHOB COSB: COSBAU GWEINYDDOL

6.3.1. Bydd cynnig cosbau gweinyddol yn mynnu awdurdod ysgrifenedig y Rheolwr Refeniw. Bydd y swyddog hwn yn sicrhau bod cynnig, prosesu a chofnodi'n unol â'r ddeddfwriaeth nawdd cymdeithasol berthnasol a gweithdrefnau'r Adran Gwaith a Phensiynau.

6.3.2. Seilir penderfyniad y Rheolwr Refeniw ar gyfrif ysgrifenedig o'r dystiolaeth sydd ar gael. Cofnodir y rhesymau.

6.3.3. Y Rheolwr Refeniw fydd yn penderfynu *pwy* sy'n gweinyddu'r gosb. Rhaid i'r swyddog gweinyddu fod yn brofiadol ac ni ddylai fod wedi bod yn bresennol yn ystod y cyfweliad-dan-rybudd. Rhestrir y swyddogion hyn yn Atodiad C.

6.3.4. Bydd y swyddog gweinyddu'n sicrhau y rhoddir hysbysiad ysgrifenedig i dramgwyddwyr, yn unol â chanllawiau'r AGP, sy'n datgan bwriad y Cyngor i gynnig cosb weinyddol.

6.3.5. Gwahoddir yr unigolyn y mae'r gosb ar ei gyfer i apwyntiad yn swyddfeydd y Cyngor (ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol). Bydd hyn ar ffurf cyfweliad (nid dan rybudd) a bydd yn cael ei ddefnyddio i roi gwybodaeth i'r unigolyn dan sylw am gosbau gweinyddol a chynnig cyfle i gytuno i dalu un yn lle erlyniad.

6.3.6. Os bydd yr unigolyn dan sylw'n methu â chadw'r apwyntiad ac yn peidio â chysylltu â'r Cyngor o fewn cyfnod a bennir gan yr AGP, bydd achos yn cael ei baratoi gan y Rheolwr Refeniw.

6.3.7. Os yw'r unigolyn dan sylw'n symud i ardal arall cyn y cyfweliad, gellir gofyn i'r awdurdod lleol newydd gyhoeddi'r gosb.

6.3.8. Os yw'r unigolyn dan sylw'n derbyn budd-daliadau a delir gan yr AGP, bydd y swyddog gweinyddu'n cysylltu â'r AGP leol gyda'r bwriad o'r ddau fudiad yn cynnig cosbau ar y cyd.

6.3.9. Bydd gweinyddu, paratoi, fformat a chynnal cyfweliadau cosbau'n dilyn pob gofyn statudol perthnasol a chanllawiau'r AGP.

6.3.10. Os ydynt yn cytuno i'r gosb, bydd y swyddog gweinyddu'n sicrhau eu bod yn llofnodi cytundeb. Seilir fformat a geirfa hwn ar gyfarwyddyd yr AGP.

6.3.11. Rhoddir amser i'r unigolyn dan sylw ystyried y cynnig yn unol â'r terfynau amser a geir yng nghyfarwyddyd yr AGP.

6.3.12. Os derbynnir cosb, bydd y swyddog gweinyddu'n hysbysu:

- is-adran dyledwyr y Cyngor a fydd yn cysylltu â'r tramgwyddwr i drefnu telereau unwaith i'r cyfnod 'ystyried' statudol ddod i ben
- yr AGP er mwyn cadw cofnodion cywir yn ganolog

6.3.13. Os yw'r unigolyn dan sylw'n:

- gwrthod y cynnig neu'n
- newid ei feddwl ac yn diddymu'r cytundeb o fewn y cyfnod 'ystyried' neu'n
- methu â chytuno i'r cynnig ar ôl cael amser ychwanegol neu'n
- methu â chadw apwyntiad i drafod y cynnig

bydd y Rheolwr Refeniw'n cyfeirio'r achos ar gyfer erlyniad.

6.3.14. Ar ôl gwrthod cynnig o gosb, os yw'r unigolyn dan sylw'n newid ei feddwl, gall y Rheolwr Refeniw gytuno ar gynnig newydd, yn dibynnu ar gynnydd unrhyw erlyniad.

6.4. CYFRIFOLDEBAU MEWN PERTHYNAS Â PHOB COSB: ADFER GORDALIADAU AC ACHOS LLYS SIFIL

6.4.1. Gellir adfer budd-daliadau tai/treth y cyngor a ordalwyd trwy'r system ddyledwyr neu o'r arian sy'n dal i gael ei hawlio neu gan unrhyw system a gymeradwyir gan y Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad yn unol â'r Rheoliadau Ariannol.

6.4.2. Cyfeirir unrhyw ordaliadau sy'n dal yn ddyledus ar ôl cyfnod penodol ar gyfer achos llys sifil yn unol â gweithdrefnau dyledwyr y Cyngor.

6.4.3. Bydd y PSCG yn hysbysu'r Rheolwr Refeniw a/neu'r Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad o:

- unrhyw dystiolaeth a'r ddogfennaeth sy'n ofynnol
- ffurf unrhyw dystiolaeth sy'n ofynnol
- manylion o unrhyw ymddangosiadau yn y llys sy'n ofynnol
- y cynnydd a wneir
- canlyniad achosion

6.4.4. Bydd y PSCG yn gyfrifol am ymgeisio am unrhyw gostau ariannol.

7. YMCHWILIO I ACHOSION SY'N PERTHYN I'R POLISI HWN

7.1. Yn unol â gofynion statudol a Rheoliadau Ariannol y Cyngor, y Rheolwr Refeniw sy'n gyfrifol am ymchwilio i dwyll budd-daliadau tai a threth y cyngor.

7.2. Bydd yr holl staff sy'n rhan o ymchwilio i dwyll yn cael gweld y polisi hwn, a chôd ymarfer Deddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddol 1996. Wrth ymchwilio, byddant yn ystyried y cosbau posibl y gellir eu gweithredu. Yn benodol, byddant yn:

- ceisio **cael y ffeithiau** ym mhob achos honedig neu ddrwgdybiedig
- ceisio casglu **digon o dystiolaeth dderbyniol**
- gwneud pob ymchwiliad â meddwl agored
- ystyried unrhyw ofynion gan yr heddlu os penderfynir bod angen cynnwys yr heddlu
- gweithredu'n unol â darpariaethau Deddf Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984
- gweithredu wrth ystyried hawliau'r sawl dan amheuaeth ac unrhyw dystion posibl, yn enwedig fel y ceir yn Neddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilwyr 2000
- cofnodi a ffeilio gwaith yn briodol, yn gyfrinachol ac yn ddiogel a chan ystyried gofynion Deddf Gwarchod Data 1998
- cynnal pob ymchwiliad yn deg, yn sensitif, yn oddefgar ac yn ddoeth
- cael cyfieithiadau os bydd gofyn
- gwneud dogfennau ar gael ar gais mewn sawl fformat ac iaith heblaw am y Gymraeg neu'r Saesneg os bydd gofyn
- gweithredu'n brydlon yn unol â'r polisi hwn
- gweithredu'n unol â darpariaethau unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall, rheoliadau ariannol y Cyngor, rheoliadau eraill, polisïau a chodau ymarfer y Cyngor; codau ymarfer unrhyw fudiadau proffesiynol eraill.

7.3. Cedwir unrhyw ddogfennaeth sy'n perthyn i erlyniad neu ffurf arall o gosb yn unol â gofynion Deddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddol 1996.

8. CYHOEDDUSRWYDD AC ADRODD

8.1. Gan mai prif nod y polisi hwn yw atal twyll, dylid rhoi cyhoeddusrwydd priodol i unrhyw erlyniadau neu gosbau llwyddiannus.

8.2. Tra bydd unrhyw erlyniad llwyddiannus yn cael ei ystyried ar gyfer cyhoeddusrwydd, rhoddir sylw penodol i dwyll sy'n fawr o ran gwerth neu lle mae tramgwyddwr wedi cael dedfryd sylweddol. Dim ond pan fydd difrod i enw'r Cyngor yn cael ei fygwth y bydd cyhoeddusrwydd yn peidio â chael ei ystyried.

8.3. Yn dilyn erlyniad llwyddiannus, bydd y Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad, y Rheolwr Refeniw neu'r Rheolwr Twyll Budd-daliadau Tai'n trefnu datganiad priodol gyda Swyddog Gwasg y Cyngor.

8.4. Ystyrir datganiadau eraill i'r wasg o bryd i'w gilydd, megis adroddiadau am gosbau dros gyfnod o amser.

8.5. Gwneir defnydd o gyhoeddiadau'r Cyngor megis Cyswllt a Diweddariad, gwefan y Cyngor a'r fewnrwyd i hysbysu'r cyhoedd a staff.

8.6. Bydd y Rheolwr Refeniw'n rhoi crynodeb o ganlyniadau i staff asesu budd-daliadau tai o leiaf unwaith y flwyddyn. Bydd llawer o'r canlyniadau o ganlyniad i'w gwaith caled nhw ac mae er budd i'r Cyngor ein bod yn annog hyn.

8.7. Bydd y Rheolwr Refeniw'n cynghori'r archwilydd dosbarth lle bydd angen.

8.8. Er mwyn cael ymchwiliadau a swyddogaethau cosbi atebol, bydd y Rheolwr Refeniw'n rhoi adroddiadau i'r Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad sy'n crynhoi'r canlyniadau hyd yma.

9. CADW'R POLISI'N AMSEROL A PHERTHNASOL

9.1. Mae'r polisi hwn ar gael i aelodau etholedig a gweithwyr y Cyngor yn y Llawlyfr Polisïau a Gweithdrefnau Corfforedig ac ar y fewnrwyd.

9.2. Mae copïau o'r polisi ar gael i staff sy'n rhan o ymchwilio i dwyll, erlyn a gweithredu cosbau gyfeirio atynt a chyfeirir at y polisi yng nghynlluniau hyfforddiant y gweithwyr hynny.

9.3. Rhoddir copi o'r polisi i unrhyw fudiadau partner sy'n rhan o daclo twyll, megis yr Adran Gwaith a Phensiynau, ac i unrhyw gontractwyr neu asiantau sy'n gweithredu ar ran y Cyngor.

9.4. Gall fod ar gael ar gais i unrhyw gorff allanol sydd â diddordeb. Gallai hyn gynnwys y rhai y bwriedir eu cosbi am eu twyll, unrhyw dystion, cyfreithwyr neu gynghorwyr.

9.5. Bydd y Rheolwr Refeniw a/neu'r Prif Swyddog Cyfraith a Gweinyddiaeth yn arolygu'r polisi. Bydd hyn yn cynnwys:

- monitro ei effeithiolrwydd
- ystyried unrhyw newidiadau perthnasol i ddeddfwriaeth a chyfarwyddyd y llywodraeth
- ystyried unrhyw newidiadau strwythurol naill ai o fewn y Cyngor neu rhwng y Cyngor a mudiadau allanol
- arolygu ei berthnasedd yn sgil newidiadau i dechnoleg
- ei arolygu yn sgil sylwadau a geir tu mewn a thu allan i'r Cyngor

9.6 Aseswyd y polisi hwn am ei effaith ar wahanol gymunedau Wrecsam yn unol â dyletswyddau cyfreithiol i hybu cyfle cyfartal, ymdrin â chamwahaniaethu a hybu cysylltiadau hil da fel y gosodir allan yn Neddf Cysylltiadau Hil (Diwygiad) 2000.

9.7 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ymroddedig i gydraddoldeb a bydd yn gweithredu'r polisi hwn yn deg ac yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol.

ATODIAD A

DYFYNIAD O'R STRATEGAETH GWRTHDWYLL A LLWGRWOBRWYO

DATGANIAD POLISI

- **Ni fydd y Cyngor yn goddef unrhyw ffurf o dwyll na llwgrwobrwyo tu mewn i'r Cyngor, gan fudiadau allanol nac unigolion.**

- **Mae'r Cyngor yn ymroddedig i atal, peidio ag annog, datgelu ac ymchwilio i bob math o dwyll a llwgrworbrwyo ar holl**

ATODIAD B

TWYLL BUDD-DALIADAU TAI/TRETH Y CYNGOR

ADRAN GWAITH A PHENSIYNAU – CYFARWYDDYD AM GOSBAU[3]

[3] Cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran Nawdd Cymdeithasol

Gwerth y twyll (£)	**Cosb a argymhellir**
0 – 2000	Rhybudd ffurfiol
0 – 2,000	Cosb weinyddol
Dim swm penodol, yn dibynnu ar y canlynol: 1. Gwrthod derbyn rhybudd ffurfiol/cosb weinyddol a/neu 2. Droseddau blaenorol tebyg a/neu 3. Ymdrech i gyflawni twyll lle nad yw'r cosbau eraill yn briodol	Erlyn

ATODIAD C

Swyddogion Profiadol sy'n gallu Cyhoeddi Rhybuddion Ffurfiol a Chosbau Gweinyddol

Enw'r swyddog	Swydd	Hyfforddiant *Pins*
Mrs Lewis-Moreton	Rheolwr Twyll Budd-	PINS 1-7, PINS 6m a

	daliadau ac Ymweliadau	7m, PINS 9, PNIS9a, NVQ lefel 4
Mr Robinson	Ymchwilydd	PINS 1-7, PINS 6m a 7m, PINS 9, NVQ lefel 3
Mrs Davies	Ymchwilydd	PINS 1-7, PINS 6m a 7m, PINS 9, PINS 9a
Mr Corcoran	Ymchwilydd	PINS 1-7 PINS 9
Mrs Solari	Ymchwilydd	PINS 1-7 PINS 9
Mr Edwards	Ymchwilydd	PINS 1-7 PINS 9
Miss Hensley	Ymchwilydd	PINS 1-7

Sylwer:

1. Pins – Professionalism in Security
   Dyma'r prif gymhwyster ar gyfer ymchwilwyr twyll budd-dal ac achredwyd ef gan Brifysgol Portsmouth